**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru Wedi'i Gadarnhau**
**Cyfarfod Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**
**A gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2025 am 12:30, yn 3.3 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Kate Young | (KY) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector). |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Karen Fitzgibbon | (KF) | Pennaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 3) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitemau 4 a 5) |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr staff |
| Sian Jones | (SJ) | Rheolwr y Gymraeg (ar gyfer eitem 7) |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Joe O'Brien | (JOB) | Rheolwr Systemau (ar gyfer eitem 3) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Brett Wrightbrook | (BW) | Rheolwr Llesiant ac Ymgysylltu (ar gyfer eitem 2) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| Dechreuodd y cyfarfod am 12:30 | | |

| PODC 1/2025.07.16 | Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb |
|---|---|

Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ar 14 Hydref 2025.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.

| PODC 1.1/2025.07.16 | Datganiadau o Fuddiant |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| PODC 1.2/ 2025.07.16 | Cofnodion, Log Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (09 Gorffennaf 2024) |
|---|---|

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 29 Ebrill 2025.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y newidiadau i'r Log Gweithredu.

**Mewn Ffocws / Archwiliad Dwfn**

| PODC 2/ 2025.07.16 | Diwylliant ac Ymgysylltu (Gan gynnwys Canlyniadau Arolwg Staff 2024) |
|---|---|

Cyflwynodd RA a BW archwiliad manwl o ddiwylliant a gweithgaredd ymgysylltu staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, yn ogystal â rhoi cipolwg ar ganlyniadau arolwg staff 2024.

Tynnodd RA sylw at y gwaith diwylliant ac ymgysylltu â staff a wnaed yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Gweithdai diwylliant a gynhaliwyd yng Nghynadleddau Staff 2025 i dynnu sylw at yr effaith y gall pawb ei chael ar ddiwylliant.
- Gweithio ar y Cynllun Gweithredu Integredig, a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Busnes ym mis Tachwedd 2024.
    - Canolbwyntiodd y cynllun ar dri maes allweddol a nodwyd ar gyfer gwelliant:
        - Diwylliant ac Arweinyddiaeth
        - Iechyd a Llesiant
        - Gwelliant a thwf proffesiynol
    - Byddai'r Cynllun yn cyfrannu at liniaru'r Risg Strategol 2 newydd mewn perthynas ag iechyd sefydliadol.
    - Roedd pob un o'r chwe arweinydd is-thema wedi datblygu datganiad canlyniad strategol a oedd yn nodi amcanion pob thema. Defnyddiwyd y datganiadau i nodi camau gweithredu a fyddai'n galluogi olrhain cynnydd y cynllun gweithredu.
- Roedd arolwg Culture Pulse ar agor ar hyn o bryd i ailasesu'r diwylliant presennol mewn meysydd blaenoriaeth. Roedd dyddiad cau'r arolwg wedi'i ymestyn oherwydd cyfradd ymateb isel.

WEDI'I GADARNHAU

- Datblygu dull strategol o ymgysylltu â gweithwyr, a oedd yn cynnwys camau gweithredu a nodwyd i olrhain cynnydd. Roedd yr adroddiad cyntaf ar hyn i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2025 a byddai'n cynnwys canlyniadau arolwg Culture Pulse.
- Datblygu eiriolwyr diwylliannol ychwanegol drwy'r rhaglen eiriolwyr a gweithdai, gyda 46 o eiriolwyr ar draws pob Cyfarwyddiaeth. Roedd Cymuned Ymarfer Eiriolwyr Diwylliannol i fod i gael ei lansio i wneud y mwyaf o'r gefnogaeth.
- Datblygiad y naratif diwylliannol yn dilyn adborth gan y Tîm Gweithredol Busnes. Byddai'n cael ei adolygu ymhellach ar ôl derbyn canlyniadau'r arolwg pwls. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei ymgorffori mewn gwaith cyfathrebu recriwtio, a byddai'n arwain at ymrwymiad Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2026.
- Y camau nesaf a nodwyd ar gyfer y gwaith hwn, a oedd yn cynnwys lansio arolwg staff 2025 ym mis Medi 2025, a chynnydd ar ymrwymiad y CTCI i ddatblygu map ffordd profiad gweithwyr.

Tynnodd BW sylw at fewnwelediadau allweddol o ganlyniadau'r arolwg staff:

- Cynnydd mewn gwaith ymgysylltu ar draws y sefydliad, megis ymweliadau safle ychwanegol, mynychu cyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth, ac ymgysylltu â rhwydweithiau staff.
- Roedd gan arolwg staff 2024 gyfradd ymateb o 60.5%, a oedd yn gynnydd ar draws pob maes o'r sefydliad, ac roedd y mynegai ymgysylltu cyffredinol yn 74.4%.
- Meysydd a oedd wedi'u cymharu'n uniongyrchol â chanlyniadau arolwg 2023. Dangosodd atebion i gwestiynau ynghylch diffygiad a Dysgu a Datblygu welliant, ond roedd sgoriau wedi gostwng o ran teimlo'r gallu i siarad am faterion.
- Y meysydd dysgu allweddol a nodwyd, megis yr angen i adrodd yn glir ar ganlyniadau a datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer arolwg staff.
- Y risgiau a nodwyd o gynnal arolwg staff blynyddol, a oedd yn cynnwys blinder ar yr arolwg, canfyddiad staff o anweithgarwch oherwydd amserlenni'r arolwg, a'r capasiti sydd ei angen i gynnal yr arolwg.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A ystyriwyd meysydd eraill ar gyfer ymgysylltu wyneb yn wyneb ochr yn ochr ag ymweliadau labordy. Nododd BW y byddai safleoedd labordy ychwanegol yn cael eu hystyried o fewn y capasiti presennol. Nododd fod y gwaith presennol ar ddull wedi'i ffocysu ar gyfer Diogelu Iechyd a Sgrinio i wella cyfraddau ymateb yn y maes hwn yn benodol.
- A oedd mwy o wybodaeth ar gael am y meysydd a nodwyd i'w gwella o ganlyniadau'r arolwg a'r Cynllun Gweithredu Integredig. Cytunodd RA i ddarparu dolen i ddadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg a allai roi mwy o fanylion. Nododd NL y byddai gwaith yn cael ei wneud gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol a Phartneriaid Busnes Pobl i nodi meysydd pellach i'w gwella ar lefelau sefydliadol a Chyfarwyddiaeth.
- Sut orau i fynd i'r afael â'r risg o flinder arolygon ar gyfer arolygon staff yn y dyfodol. Trafododd y Pwyllgor gynnig gan yr Adran Gyfathrebu ynghylch datblygu pecyn briffio i'w rannu ledled y sefydliad. Byddai'n hysbysu staff am y gwaith a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon a godwyd o arolygon blaenorol.

WEDI'I GADARNHAU

Nododd NL hefyd y bwriad i barhau i weithio gyda rhwydweithiau staff ac Undebau Llafur i sicrhau bod cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl i staff.

Diolchodd KY i bob aelod o staff cysylltiedig am eu gwaith parhaus yn natblygiad a chynnydd diwylliant ac ymgysylltiad yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd bod cynnydd yn parhau gyda Gweithgaredd Diwylliant ac Ymgysylltu, a sut rydym yn creu ac yn cynnal yr amodau lle gallwn ni i gyd gynnig mwy o'n gallu a'n potensial.

| **PODC 3/ 2025.07.16** | **Absenoldeb Salwch (gan gynnwys gwelliannau ansawdd data)** |
|---|---|

Cyflwynodd KF a JOB drosolwg o ddata absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys absenoldeb sy'n gysylltiedig â salwch meddwl ac absenoldeb heb ei gategoreiddio, ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2024 i 31 Mai 2025, mewn ymateb i gais gan y Bwrdd.

Nododd NL fod yr eitem hon wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn cais gan y Bwrdd i archwilio absenoldeb oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys straen a gorbryder.

Cadarnhawyd y bydd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref yn cynnwys cyflwyniad mwy manwl a thrafodaeth drylwyr, ar sail canfyddiadau Archwiliad Mewnol sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Tynnodd KF a JOB sylw at bwyntiau allweddol i'w trafod:

Absenoldeb Oherwydd Salwch yn Gyffredinol:
- 1 Mehefin 2024 i 31 Mai 2025: Am y cyfnod o 12 mis yn dod i ben ar 31 Mai 2025, roedd absenoldeb oherwydd salwch yn 4.73% ymhlith staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) Mae hyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 3.25%, ond yn is na chyfartaledd GIG Cymru o 6.2%.
- Cyfradd fisol Mai 2025: 4.14% FTE.

Absenoldeb Oherwydd Iechyd Meddwl (S10 – Straen, Gorbryder, Iselder):
- Collwyd 780 diwrnod ym mis Mai 2025 yn unig.
- Yn cyfrif am 40% o gyfanswm yr absenoldebau oherwydd salwch dros y cyfnod o 12 mis.
- Roedd diffyg rheswm Lefel 2 ar gyfer 61.22% o absenoldebau S10.
- Cofnodwyd 4.35% o absenoldebau S10 fel rhai sy'n gysylltiedig â gwaith; gadawodd 79.49% y maes hwn yn wag.

Absenoldeb Heb ei Gategoreiddio (S98 ac S99):
- Cyfanswm cyfunol o 3,505.82 o ddiwrnodau FTE a gollwyd, yn cynrychioli 10.25% o'r holl absenoldebau oherwydd salwch.
- Gall guddio tueddiadau neu faterion systemig, gan gyfyngu ar allu'r sefydliad i ymateb yn effeithiol i anghenion llesiant y gweithlu.

WEDI'I GADARNHAU

Nododd KF a JOB y gwaith parhaus ar wella ansawdd data, gan gynnwys ymgysylltiad rheolwyr, cyfyngiadau'r system ESR, a phryderon ynghylch diogelwch seicolegol yn effeithio ar ddatgelu.

Tynnodd KF a JOB sylw at yr ymdrechion i gefnogi achosion salwch hirdymor a gwella cyflawnrwydd data.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A oedd dulliau ar waith i gefnogi cofnodi salwch staff lle nad rheolwr oedd y pwynt cyswllt. Cytunodd KF i gymryd hyn i'w gadarnhau y tu allan i'r cyfarfod.
- A gofnodwyd achosion o salwch tymor byr a thymor hir yn wahanol o fewn y categori anhysbys. Cadarnhaodd JOB y byddai hyn yn cael ei nodi fel rhan o'r gwaith parhaus a'r archwiliad mewnol.
- A oedd sgyrsiau wedi'u cynnal gydag Undebau Llafur ynghylch eu mewnwelediadau i absenoldeb salwch. Nododd LH fod ymgynghori wedi'i gynnal ag Undebau Llafur ar y mater hwn, ac y byddai'n cael ei drafod fel rhan o agenda'r Pwyllgor Ochr Staff nesaf. Nododd LH hefyd broblemau posibl gyda staff yn cael anawsterau wrth gael mynediad at ddychweliad graddol i'r gwaith ar ôl y tro cyntaf, a allai arwain at ddiffyg trefniant cefnogol i'r unigolyn hwnnw.
- Pa ymyriadau oedd ar waith i fynd i'r afael â meysydd o lefelau straen/salwch uchel. Cytunodd KF i fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn a rhannu enghreifftiau fel rhan o'r adroddiad llawn.
- A gynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad ynghylch a ddefnyddiwyd y cod rheswm 'anhysbys' gan staff a oedd wedi cael mynediad dirprwyol. Cytunodd JOB i adolygu hyn. Nododd fod rhaglen drawsnewid ESR ar y gweill, gyda system newydd ar waith a fyddai'n anelu at ddarparu profiad mwy cyfeillgar i'r defnyddiwr i reolwyr a staff.
- Pa gamau oedd yn cael eu harchwilio/eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryder ynghylch llosgi allan staff. Tynnodd KF sylw at y ffaith bod y grŵp Hwb Cymorth Diffygiad wedi'i sefydlu i roi cymorth a gwybodaeth i staff, ac y byddai'r maes hwn yn cael sylw fel rhan o'r adroddiad llawn.

Cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar ansawdd data ac absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn cyflwyniad pellach, manylach a cheir trafodaeth yng nghyfarfod mis Hydref, ar sail canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol a dadansoddiad pellach. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r ymholiadau a'r meysydd a nodwyd ar gyfer adolygiad pellach.
**Cam Gweithredu: NL**

Diolchodd KY i KF a JOB am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli cyfraddau a thueddiadau absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2024 i 31 Mai 2025.

**Rheoli Risg**

| | |
|---|---|
| **PODC 4/ 2025.07.16** | **Cofrestr Risg Strategol (Risg 2)** |

WEDI'I GADARNHAU

Rhoddodd y DG ddiweddariad ar sefyllfa reoli Risg Strategol 2.

Nododd CB mai Risg Strategol 2 oedd y risg ddrafft newydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, a diolchodd i RA a DG am eu gwaith o'i ddatblygu. Byddai'r risg newydd hon yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Gorffennaf 2025.

Roedd Risg Strategol 2 yn cwmpasu'r risg y gallai'r sefydliad brofi iechyd sefydliadol gwael, a oedd yn rhestru pum ffactor a allai arwain at ddiwylliant sefydliadol gwael. Gallai hynny effeithio ar y gallu a'r capasiti i berfformio a chyflawni.

Nododd DG fod geiriad y risg hon wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd Tîm Gweithredol Busnes strategol, ac mewn sesiynau Datblygu'r Bwrdd drwy gydol 2025. Rhoddwyd cymeradwyaeth derfynol i hyn ym mis Ebrill 2025, ac roedd cynllun pontio risg strategol ar waith i sicrhau llywodraethu priodol ar draws y cyfnod pontio nes i'r risg gael ei chyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod 31 Gorffennaf.

Tynnodd DG sylw at y ffaith bod y templed Risg Strategol diwygiedig wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd, ac wedi cael derbyniad da ar draws y sefydliad.

Nododd NL, yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Tîm Gweithredol, fod disgwyl rhai diweddariadau a newidiadau cyn cyflwyno'r papur terfynol i'r Bwrdd.

Nododd y Pwyllgor newid yn y geiriad yn y risg ynghylch diwylliant sefydliadol, a gofynnodd a oedd gan yr Isadran Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Tîm Gweithredol Busnes weledigaeth glir o ddiwylliant sefydliadol delfrydol. Nododd NL fod eglurder ynghylch y camau gweithredu a'r meysydd ffocws ochr yn ochr â'r gwaith ar ddiwylliant a'r Strategaeth Hirdymor, ac y byddai'r pwynt hwn yn cael ei adlewyrchu drwy gydol y gwaith hwn.

Diolchodd KY i DG am y diweddariad.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Risgiau Strategol ac fe gafodd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Strategol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **PODC 5/ 2025.07.16** | **Y Gofrestr Risg Corfforaethol** |

Rhoddodd SS ddiweddariad ar y gofrestr Risg Gorfforaethol a thynnodd sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- 11 risg ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda dau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.
- Risg 1541 (risg o niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr oherwydd diffyg datgelu a gwahardd rheolaidd) – Roedd y rheolaeth ar gyfer y risg hon yn cynnwys drafft o Bolisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn partneriaeth ag Undebau Llafur a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori. Byddai gwybodaeth ychwanegol am ofynion gwasanaeth diweddaru'r DBS yn cael ei hychwanegu at y Polisi Diogelu presennol.
- Risg 1596 (diffyg capasiti/adnoddau i gyflawni cynllun hirdymor) – Disgwylid cau'r risg hon ar ôl cwblhau'r camau gweithredu cyfredol a thrafodaeth fanwl yng

WEDI'I GADARNHAU

nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 3 Gorffennaf. Nododd RA fod newidiadau mewn ffactorau achosol ac ail-fynegi'r risg strategol gysylltiedig flaenorol yn y risg strategol 2 newydd, teimlwyd bod hyn yn cwmpasu'r gallu i gyflawni'r blaenoriaethau strategol.

Diolchodd KY, a chanmolodd fformat ac eglurder yr adroddiadau risg.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Corfforaethol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** | |
|---|---|
| **PODC 6/ 2025.07.16** | **Blaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Diweddariad ar Gynnydd** |

Rhoddodd RA yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yma tuag at y Blaenoriaethau Cydraddoldeb Strategol ers cyhoeddi'r Cynllun Blaenoriaethau Strategol yn 2024. Nododd RA y byddai hyn yn cynnwys ac yn cefnogi'r Cynllun Hawliau Pobl ag Anableddau sydd ar ddod yn fuan.

Tynnodd RA sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:
- Cyhoeddi polisi Gofalwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Ail-lansio'r Rhwydwaith Dynion.
- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn safle 31 ym Mynegai Cyflogwyr Cynhwysol LHDTC+ a gynhyrchwyd gan Stonewall. Roedd hyn yn welliant o'i gymharu â safle 64 yn 2022.
- Lansio Is-grŵp Niwro-Amrywiaeth fel rhan o'r Rhwydwaith Porffor.
- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni achrediad Cyflogwr Cyflog Byw.

Diolchodd KY i RA am y diweddariad, a diolchodd i'r holl staff dan sylw am eu cyfraniadau.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:
- A oedd system gwyno ar waith i nodi problemau a gweithredu arnynt. Nododd CB fod cwynion yn cael eu cofnodi ar Datix o dan is-gategorïau a fyddai'n caniatáu i faterion gael eu nodi ar lefel Cyfarwyddiaeth neu adran. Yna gellid cyflwyno materion thematig i'r Gyfarwyddiaeth/Pwyllgor perthnasol, neu eu trafod fel rhan o'r Adroddiad Llywodraethu Ansawdd Integredig Chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.
- A oedd yr achrediad Cyflog Byw yn sicrhau bod staff a isgontractiwyd hefyd yn cael eu talu'r isafswm cyflog byw. Cytunodd RA i drafod y cwestiwn hwn y tu allan i'r cyfarfod a chadarnhau bod hyn yn rhan o'r gofynion achredu.
- Nododd LH fwriad Rhwydwaith Ochr Staff i gasglu data gan gynrychiolwyr Undebau Llafur ar achosion yr effeithir arnynt gan ffactorau cydraddoldeb. Nododd RA waith Iechyd Cyhoeddus Cymru i gasglu data cydraddoldeb, ac y byddai cydweithio ar y data hwn yn caniatáu nodi meysydd i'w gwella.
- A wnaed gwaith ar lwybrau symud ymlaen mewn swydd i ddeall y rhwystrau i bobl o grwpiau penodol. Nododd RA y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r Rhwydweithiau Staff, megis lansio cynllun mentora gan y Rhwydwaith Menywod. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynyddu cynrychiolaeth mewn hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth, a gweithio gyda sefydliadau fel y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac

WEDI'I GADARNHAU

Ieuenctid (EYST) i gyrraedd cymunedau penodol. Cadarnhaodd RA hefyd fod gwaith gyda chymunedau yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth a chyfleoedd yn hygyrch i bobl o'r cymunedau hynny fel rhan o amcanion y cynllun.

Canmolodd NL waith rhwydweithiau mewn perthynas â chefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'u dylanwad cadarnhaol ar gyfeiriad polisi yn y broses ddatblygu.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed gydag amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

| **PODC 7/ 2025.07.16** | **Adroddiad Blynyddol y Gymraeg (2024-25)** |
|---|---|

Rhoddodd RA drosolwg o Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Gymraeg 2024-25, a oedd yn ceisio monitro cynnydd Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, dathlu llwyddiannau a nodi targedau. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn flynyddol ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn cael gwybod.

Nododd RA waith Rhwydwaith y Gymraeg, a oedd yn cynnwys dathliad Dydd Gŵyl Dewi wyneb yn wyneb ar safle Rhif 2 Capital Quarter.

Tynnodd RA sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Gwelliannau i'r broses Gyfieithu Cymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn cynnwys creu porth cyfieithu canolog ar gyfer pob cais cyfieithu. Roedd hyn wedi gwella mynediad at gyfieithiadau Cymraeg, ac ansawdd y cyfieithiadau hynny, ac wedi lleihau costau.
- Parhaodd capasiti a gallu i fod yn her. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd dysgu ar gael i staff ennill y sgiliau angenrheidiol fel rhan o weithgarwch cynllunio'r gweithlu.
- Nododd SJ fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i fodloni deddfwriaeth ac i ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad.

Diolchodd NL i SJ a Thîm y Gymraeg am eu llwyddiannau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac adleisiodd y Pwyllgor hyn gan ganmol gwaith y timau i gymell y gwelliannau ymlaen.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol 2024-2025 Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Partneriaethau ac Ymgysylltu**

| **PODC 8/2025.07.16** | **Fforymau Gwaith Partneriaeth Undebau Llafur - Diweddariad** |
|---|---|

Rhoddodd NL yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gyda gweithio mewn partneriaeth ag Undebau Llafur ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025.

WEDI'I GADARNHAU

| | |
|---|---|
| Tynnodd NL sylw at y gwaith arwyddocaol a chadarnhaol a wnaed gan y Pwyllgor Negodi Meddygol a Deintyddol ar y Cyd a'r Fforwm Partneriaeth Lleol. Nododd NL mai'r cam allweddol nesaf fyddai cynhyrchu papur a fyddai'n darparu Cylch Gorchwyl Fforwm Partneriaeth Lleol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i'w gymeradwyo, a oedd fod i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2025.<br><br>Diolchodd KY i NL am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch trefniadau gwaith Partneriaeth Undebau Llafur ar gyfer y cyfnod hwn a amlinellwyd yn yr adroddiad. | |
| **Y Gweithlu a Chynllunio'r Gweithlu** | |
| **PODC 9/2025.07.16** | **Archwiliad Cofrestru Blynyddol 2024-25** |
| Rhoddodd CB drosolwg o adroddiad yr Archwiliad Cofrestru Blynyddol ar gyfer 2024-25, a roddodd sicrwydd bod pob cofrestrydd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru'n briodol gyda'r corff perthnasol.<br><br>Tynnodd CB sylw at y ffaith, er bod gan bob corff rheoleiddio ddull gwahanol o ddarparu sicrwydd yn y maes hwn, fod yr adroddiad yn dangos sicrwydd 100% bod yr holl staff wedi'u cofrestru'n briodol ar gyfer eu haddasrwydd i ymarfer yn eu proffesiwn dewisol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Nododd MB fod gwelliannau methodoleg a nodwyd yn adroddiad 2023-24 wedi'u cario ymlaen i'r adroddiad hwn.<br><br>Diolchodd KY i CB/MB am y diweddariad. Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir yn Iechyd Cyhoeddus gofrestriad priodol a chyfredol gyda'u Cyrff Rheoleiddio yn ystod 2024/25. | |
| **Er Gwybodaeth** | |
| **PODC 10/2025.07.16** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PODC 10.1 2025.07.16** | **Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediadau - Detholiad o'r Gweithlu** |
| **Nododd** y Pwyllgor ddyfyniad y gweithlu o adroddiad Insight er gwybodaeth. | |
| **PODC 10.2 2025.07.16** | **Diweddariad ar Gynnydd Log Camau Gweithredu Archwilio** |
| Nodwyd papurau'r Cofnod Gweithredu Archwilio er gwybodaeth. | |
| **PODC 10.3 2025.07.16** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| Nodwyd y cynllun gwaith er gwybodaeth. | |
| **PODC 12/2025.07.16** | **Gweinyddiaeth Cloi** |
| Diolchodd KY i aelodau'r Pwyllgor am eu mewnbwn a'u cyfraniadau at waith y Pwyllgor drwy gydol ei chyfnod fel Cadeirydd, a chroesawodd TR fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer | |

GADARNHAU

| |
|---|
| y dyfodol. Diolchodd NL i KY am ei chefnogaeth a'i chydweithrediad fel Cadeirydd gydag ef a'i dîm.<br><br>Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.<br><br>Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod i Uned Fusnes y Bwrdd.<br><br>Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 14 Hydref 2025 |
| Daeth y cyfarfod i ben am 14:55 |

WEDI'I GADARNHAU